COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR Y CABINET CYDRADDOLDEB A GYNHALIWYD YN O BELL TRWY TIMAU MICROSOFT DYDD MAWRTH, 27 GORFFENNAF 2021, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd D Patel – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| SE Baldwin | TH Beedle | NA Burnett | HJ David |
| DG Howells | JE Lewis | CE Smith | HM Williams |
| RE Young | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

SK Dendy, J Gebbie a/ac E Venables

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Debra Beeke | Rheolwr Grŵp – Adnoddau Dynol a Datblygu Trefniadaethol |
| Nicola Bunston | Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb |
| Nicola Echanis | Pennaeth Addysg a Chymorth Cynnar |
| Riaz Hassan | Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |

101. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

102. CYMERADWYAETH COFNODION

PENDERFYNIAD: Bod cofnodion 08/03/2021 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir

103. ADRODDIAD DIWEDDARU CYNLLUN GWEITHREDU CYDRADDOLDEB HILIOL CYMRU GYFAN

Cyflwynodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb adroddiad a oedd yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i Bwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet ar Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Cymru Gyfan (REAP) a’r ymgynghoriad.

Rhoddodd gefndir i Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Cymru Gyfan a oedd i’w gael yn adran 3 o'r adroddiad. Ychwanegodd bod y cynllun yn ddogfen fawr a chymhleth, yn 147 tudalen o hyd a chyda oddeutu 64 o amcanion a 340 o gamau gweithredu. Mae'n cwmpasu 13 thema polisi a 5 thema drawsbynciol.

Nododd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb fod ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer camau gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru wedi dod i ben ar 15 Gorffennaf 2021, a gofynnodd tîm Cydraddoldeb y Cyngor am ymatebion gan Gyfarwyddwyr Corfforaethol i ddeall goblygiadau gweithredol gweithredu'r camau gweithredu arfaethedig yn llwyr cyn cyflwyno ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad ar ran yr Awdurdod Lleol.

Tynnodd y Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol sylw at feysydd allweddol y Cynllun Gweithredu yn Atodiad 1 yr adroddiad. Tynnodd sylw at y diagram yn Atodiad 1 a oedd yn crynhoi'r holl ddull o ddatblygu'r REAP a sut mae'r Weledigaeth a'r Amcanion yn cyd-fynd. Rhoddodd hefyd amlinelliad o Ymrwymiad Llywodraeth Leol i Ddyfodol Di-Hiliaeth, ac fe'i crynhowyd fel a ganlyn:

- Mae llywodraeth leol yng Nghymru wastad wedi sefyll yn gadarn yn erbyn hiliaeth a gwahaniaethu, ac mae wedi ymroddgar dros hyrwyddo cydraddoldeb a thegwch i bob cymuned.
- Cydnabyddir yn gyffredinol fod anghydraddoldebau'n parhau i fod yn rhan annatod o Gymru a’i chymunedau, a bod angen i gynghorau, i Lywodraeth Cymru, a’r gwasanaethau cyhoeddus wneud mwy, yn unigol ac ar y cyd, i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau sefydledig.
- Yn ystod haf 2020, bu rhaid i gynghorau ymateb i COVID-19 a'r mudiad Black Lives Matter, gyda nifer yn sefydlu fforymau hil neu grwpiau gorchwyl a gorffen i fynd i'r afael â hiliaeth neu i gynnal adolygiadau o gerfluniau neu enwau strydoedd.
- Cyfrannodd CLlLC at nifer o grwpiau a gynullwyd gan Lywodraeth Cymru gan gynnwys Is-grŵp Cynghori Economaidd-Gymdeithasol BAME ac Archwiliad Llywodraeth Cymru o gerfluniau ac enwau strydoedd.
- Mae CLlLC yn cydlynu Prosiect Troseddau Casineb mewn ysgolion a ariennir gan Lywodraeth Cymru, gan weithio gyda phartneriaid fel Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru Cyf, Race Council Cymru, Cydraddoldeb Hiliol Cymru, Show Racism the Red Card a SAPERE: Athroniaeth i Blant (P4C), i gyflwyno'r prosiect Hate Crimes in Schools ledled Cymru, prosiect a fydd yn darparu hyfforddiant ac yn cynhyrchu adnoddau at gyfer sgiliau meddwl yn feirniadol, yn gydweithredol, yn greadigol, ac yn ofalgar i athrawon ac eraill o ran mynd i'r afael â throseddau casineb.
- Mae gan awdurdodau lleol hanes balch o gefnogi a chroesawu ffoaduriaid a cheiswyr lloches, a'u cefnogi i ymsefydlu mewn cymunedau lleol. Bu pob awdurdod yng Nghymru yn rhan o Raglen Ailsefydlu Ffoaduriaid o Syria, ac mae'r mwyafrif wedi ymrwymo i barhau i fod yn rhan o dderbyn rhagor o ffoaduriaid ledled Cymru. Mae pedwar awdurdod lleol hefyd wedi darparu ar gyfer ceiswyr lloches gwasgaredig yn eu hardaloedd, ac, yn fwy diweddar, y mae’r rhan helaeth o awdurdodau wedi cytuno i gymryd rhan yn y dyfodol.
- Yn ddiweddar, ymrwymodd Cyngor CLlLC i gyflwyno rhaglen uchelgeisiol 'Amrywiaeth mewn Democratiaeth' cyn etholiadau 2022 i geisio annog ymgeiswyr mwy amrywiol i sefyll mewn etholiadau.
- Llofnododd CLlLC a phob un o 22 cyngor Cymru addewid #DimHiliaethCymru cyn cyhoeddi'r REAP drafft ac i nodi Diwrnod Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Dileu Gwahaniaethu ar Sail Hil ar 21 Mawrth. Mae'r addewid yn ymwneud ag ymrwymiad pob cyngor i:

  - o sefyll yn erbyn hiliaeth a hyrwyddo cymdeithas fwy cynhwysol a chydradd i bawb.
  - o peidio â goddef rhagfarn hiliol, gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth, camdriniaeth na thrais yn erbyn unrhyw unigolyn.
  - o sefyll mewn undod, i ddod ynghyd, a dweud ‘na’ wrth hiliaeth ar ei holl ffurfiau.
  - o hyrwyddo cysylltiadau hiliol da rhwng pobl o gefndiroedd ethnig amrywiol o fewn y sefydliad.
  - o hyrwyddo cyfleoedd teg a chydradd i bobl o gefndiroedd ethnig amrywiol gael dyrchafiad.
  - o dileu gwahaniaethu hiliol anghyfreithiol, aflonyddu, erledigaeth a chamdriniaeth.

Tynnodd y Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol sylw at yr adrannau canlynol yn Atodiad 1:

- Arweinyddiaeth a Chynrychiolaeth
- Llywodraeth Leol
- Gofal Cymdeithasol
- Addysg
- Tai

Croesawodd y Cadeirydd yr adroddiad a nododd fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud llawer o waith yn hyn o beth, fel y gellid ei weld o lefel y manylion a ddarparwyd yn yr adroddiad, a'i fod yn arddangos eu hymroddiad i ddileu hiliaeth yng Nghymru.

Ategwyd y sylwadau a wnaed gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar, a dywedodd ei bod yn braf gweld y manylion a ddarparwyd a'r ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd fod Pen-y-bont ar Ogwr wastad angen staff gofal cymdeithasol, a bod croeso mawr i unrhyw beth a fyddai'n annog grwpiau lleiafrifoedd ethnig i ymuno â'n gweithlu.

Dywedodd Aelod fod nifer fawr o gwynion yn cael eu gwneud gyda hiliaeth yn sail iddynt, ac roedd hyn yn rhywbeth yr oedd angen i'r gymdeithas gyfan ymdrin ag o. Credai y byddai comisiynydd cydraddoldeb hiliol, tebyg i swydd Comisiynydd y Gymraeg, o fudd wrth fynd i'r afael â hiliaeth ledled y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Croesawodd yr Arweinydd yr adroddiad a dywedodd ei fod yn fenter nodedig gan Lywodraeth Cymru. Roedd nifer sylweddol o bwyntiau gweithredu i'w hystyried ac roedd yn bwysig i'r adroddiad hwn ddod yn ôl gerbron y Pwyllgor yn rheolaidd. Ychwanegodd, gan fod cymunedau ledled Cymru yn wahanol iawn, ei bod yn bwysig teilwra'r cynllun i fod yn benodol i ardal Pen-y-bont ar Ogwr er mwyn sicrhau'r gorau ohono.

Cytunodd y rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb y byddai adroddiad ym mis Mawrth 2022 o fudd i adolygu'r cynnydd.

PENDERFYNIAD: Bod y Pwyllgor wedi ystyried yr adroddiad a'r atodiadau.

104. STRATEGAETH GYMRAEG CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR 2021-2026

Cyflwynodd y rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb adroddiad a oedd yn diweddaru'r Pwyllgor ar ddatblygu strategaeth hybu 5 mlynedd ddrafft CBSP rhwng 2021 a 2026.

Eglurodd fod Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor lunio Strategaeth Hybu'r Gymraeg bum mlynedd o hyd. Dyma ail strategaeth y Cyngor, gyda'r nod o adeiladu ar y cynnydd a wnaed dros y pum mlynedd diwethaf. Tynnodd sylw at adran Safonau'r Gymraeg yn 3.2 o'r adroddiad a'r chwe amcan ffocws a oedd yn rhan o'r strategaeth gyntaf, a restrwyd yn adran 3.3 o'r adroddiad.

Eglurodd y rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb fod ystyriaeth wedi'i rhoi i gyd-destun y polisi wrth lunio'r strategaeth hon ac wrth greu proffil iaith o Sir Pen-y-bont ar Ogwr. Mae chwe amcan cyffredinol wedi'u datblygu, gan ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd o'r ymgynghoriad, i weithio gyda gwasanaethau ar draws y cyngor i ddatblygu cynllun gweithredu i gyflawni'r nodau hyn. Roedd y Strategaeth Bum Mlynedd Ddrafft ar gyfer y Gymraeg i'w chael yn Atodiad un yr adroddiad.

Eglurodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb fod ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal gyda chyfraniad rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y fwrdeistref sirol ac aelodau o fforwm WESP. Derbyniwyd cyfanswm o 439 ymateb yn yr ymgynghoriad, a defnyddiwyd yr ymatebion i ddatblygu cynllun gweithredu Strategaeth y Gymraeg 2021-2026. Golyga hyn fod y strategaeth yn defnyddio meini prawf cenedlaethol sefydledig yn ogystal â gwybodaeth a thargedau wedi'u lleoleiddio. Roedd manylion yr ymgynghoriad i'w cael yn Atodiad dau i'r adroddiad.

Dywedodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb, ar ôl derbyn gwybodaeth o'r ymgynghoriad a datblygiadau lleol a chenedlaethol, fod yr amcanion cyffredinol canlynol wedi'u datblygu:

- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y gweithlu

- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

- Cefnogi a hyrwyddo Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP)

- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru mewn busnesau ac elusennau yng nghanol trefi

- Cyfranogiad ac ymgysylltiad

- Gweithredu'r lleoliadau blynyddoedd cynnar newydd ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Roedd rhagor o fanylion am yr amcanion hyn yn adran 4.5 o'r adroddiad.

Yn ogystal â'r amcanion hyn, ychwanegodd fod targed wedi'i osod i gynyddu poblogaeth Gymraeg Pen-y-bont ar Ogwr, yn unol â tharged Llywodraeth Cymru ar gyfer 2050 o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg, yn nodi uchelgais y Llywodraeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Darparodd ystadegau o'r nifer a ragwelir o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn ogystal â'r siaradwyr Cymraeg presennol a nodwyd yn yr ymgynghoriad. Roedd y ffigurau hyn i'w cael yn 4.6 a 4.7 o'r adroddiad.

Eglurodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb fod yr ymatebion i'r arolwg a gafwyd a'r adborth yn cael ei ddefnyddio i gefnogi datblygiad terfynol y Strategaeth Ddrafft y Gymraeg 2021-2026. Bydd cynllun gweithredu manwl yn cael ei ddatblygu yn ystod mis Gorffennaf ac Awst 2021. Bydd y cynllun gweithredu yn amlinellu'r tasgau a'r camau gweithredu penodol sydd i'w cymryd dros y pum mlynedd nesaf a byddant yn canolbwyntio ar ganlyniadau.

Roedd un Aelod yn falch o weld yr adroddiad a'r ymgysylltiad cadarnhaol â'r ymgynghoriad. Ychwanegodd ei bod yn braf clywed cyhoeddiad gan yr Aelod Cabinet ar ddatblygu addysg gynradd cyfrwng Cymraeg, a chredai y byddai hyn yn cyfrannu at nod 2050. Ychwanegodd bod gan rai aelodau o'r cyhoedd broblemau gydag arwyddion nad ydynt yn ddwyieithog. Gofynnodd i ni sicrhau bod arwyddion a grëwyd yn y dyfodol yn ddwyieithog.

Roedd y Cadeirydd yn falch ein bod yn mynd i hyrwyddo'r Gymraeg yng nghanol trefi a busnesau, a'i bod yn bwysig annog y defnydd o'r Gymraeg y tu allan i ysgolion.

Cytunodd Yr Aelod Cabinet, Addysg ac Adfywio â'r pwyntiau a wnaed ynghylch defnyddio'r Gymraeg y tu allan i ysgolion a sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio ym mhob lleoliad. Dywedodd y byddai defnydd rheolaidd o'r iaith hefyd yn sicrhau nad oedd pobl yn anghofio sut i'w defnyddio, ac ni ellid canolbwyntio ar ysgolion yn unig i gyflawni'r nod 2050.

Ychwanegodd yr Arweinydd fod cyfran y siaradwyr Cymraeg yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr yn amrywio'n fawr, a bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal fwyaf Cymraeg bron yn ddwywaith yn uwch na'r ardal â lleiaf o siaradwyr. Credai fod angen ystyried hyn wrth wneud cynlluniau ar gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd Pwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet y Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg bum mlynedd ddrafft a chymeradwyodd y gwaith o ddatblygu'r cynllun gweithredu.

105. DATGANIAD POLISI AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT CYDRADDOLDEB

Cyflwynodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb adroddiad ar Ddatganiad Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a gofynnodd am gymeradwyaeth gan y Pwyllgor.

Eglurodd fod Datganiad Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi'i ddatblygu a oedd yn dangos ymroddiad ac ymagwedd bresennol y cyngor o ran cydraddoldeb. Mae'r datganiad polisi yn gosod sylfaen ar gyfer yr holl bolisïau, strategaethau a chynlluniau ac yn cysylltu'n uniongyrchol â Chynllun Cydraddoldeb Strategol y cyngor. Roedd y datganiad polisi hwn wedi'i atodi yn Atodiad 1 ac mae'n atgyfnerthu safbwynt y cyngor ar:

- Ddileu gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol
- Aflonyddu ac erledigaeth
- Hyrwyddo cydraddoldeb cyfleoedd
- Datblygu cysylltiadau rhwng pobl o wahanol grwpiau

Ychwanegodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb fod y datganiad polisi yn amlinellu ymrwymiad y cyngor, fel cyflogwr a darparwr gwasanaethau yn ein cymunedau, i beidio â gwahaniaethu yn erbyn pobl ar sail oedran, anabledd, hunaniaeth rhywedd/ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, anfantais economaidd-gymdeithasol, neu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae hefyd yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau gweithlu amrywiol a phwysigrwydd arferion recriwtio teg a chyson.

Dywedodd fod ymgynghoriad wedi'i gynnal gydag undebau llafur cydnabyddedig ac y byddai Cyrff Llywodraethu ysgolion yn cael eu hannog i fabwysiadu'r datganiad polisi hwn.

Ychwanegodd Rheolwr y Grŵp – Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadau y gellid ystyried y datganiad polisi yn gam ymarferol i atgyfnerthu'r hyn oedd gan y Cyngor eisoes. Roedd y Datganiad Polisi yn cynnwys dogfen ychwanegol ar y cyd â chynllun cydraddoldeb strategol y Cyngor.

Croesawodd yr Aelod Cabinet Cymunedau yr adroddiad a'r Datganiad Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Gofynnodd, mewn perthynas â'r adran cyfrifoldebau ar dudalen 89, pe gellid ailysgrifennu hynny i gynnwys yr holl staff fel ei bod yn amlwg bod gan bob aelod o staff gyfrifoldeb i'w weithredu. Credai ei fod hefyd yn sicrhau bod y staff yn teimlo bod modd iddynt grybwyll unrhyw anghydraddoldebau y maent yn eu gweld neu yn eu clywed.

Ychwanegodd Rheolwr y Grŵp - Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadau fod adran yn nisgrifiadau swydd holl weithwyr y Cyngor a oedd yn amlinellu eu cyfrifoldebau o ran diogelu a chynnal cydraddoldeb. Aeth yr Arweinydd ymlaen i ddweud ei bod yn bwysig bod arweinwyr yr awdurdod yn atebol, ond ei bod yr un mor bwysig, fel y dywedodd yr aelod o'r Cabinet, fod gan bob aelod o staff lefel o gyfrifoldeb. Awgrymodd, wrth gyfleu'r broses o weithredu'r strategaeth, fod y cyfrifoldebau yn eglur.

PENDERFYNIAD: Bod y Pwyllgor wedi cymeradwyo'r datganiad Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn Atodiad Un.

106. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYDRADDOLDEB YN Y GWEITHLU (2020/21)

Cyflwynodd Rheolwr y Grŵp – Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadau adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb o broffil cydraddoldeb gweithlu'r cyngor ar 31 Mawrth 2021.

Dywedodd fod atodiad 1 yn darparu proffil cydraddoldeb o weithlu'r cyngor ar 31 Mawrth 2021, yn ogystal â data cymharol o'r ddwy flynedd flaenorol. Roedd y proffil yn cynnwys nodweddion gwarchodedig y gweithlu (rhyw, anabledd, ethnigrwydd, oedran a chyfeiriadedd rhywiol); manylion y rhai yn y gweithlu sydd â chyfrifoldebau gofalu a’r rhai â sgiliau Cymraeg. Roedd set ddata lawn ar gael ar ryw ac oedran, er nad yw'n orfodol i staff ddatgelu eu gwybodaeth bersonol sensitif ar gyfer monitro cydraddoldeb.

Ychwanegodd fod y wybodaeth am gydraddoldeb a gasglwyd at ddibenion monitro wedi'i hadolygu i sicrhau y bydd y data a gesglir yn galluogi gwell dealltwriaeth o broffil cyflogaeth y cyngor. Wrth symud ymlaen bydd hyn yn golygu y bydd gan staff ddewisiadau ychwanegol mewn perthynas â Rhywedd, Hunaniaeth Trawsryweddol/Rhywedd, a Statws Priodasol. Mae staff yn cael eu hannog yn rheolaidd i ddarparu a/neu ddiweddaru eu gwybodaeth sensitif a bydd rhagor o hyrwyddo yn digwydd unwaith y bydd y system wedi'i diwygio.

Amlinellodd Rheolwr y Grŵp – Adnoddau Dynol a Threfniadaeth rai meysydd allweddol o'r dadansoddiad o dueddiadau ar gyfer y 2 flynedd flaenorol hyd at 31/03/2021, a oedd yn cynnwys y cyfrif cyffredinol, rhyw, anabledd, grwpiau lleiafrifol, oedran, cyfeiriadedd rhywiol ac eraill.

Soniodd yr Aelodau Cabinet Cymunedau fod cynnydd bach yn y data ar gyfer grwpiau eraill nad oeddent yn heterorywiol, ond tybed a oedd unrhyw syniad pam nad oedd mwy o ddata ar gyfer y grwpiau hyn. Gofynnodd hefyd am y cynllun a'r penawdau a ddefnyddiwyd yn y tablau, a phe gellid gwneud hyn yn gliriach.

Nododd Rheolwr y Grŵp – Adnoddau Dynol a Threfniadaeth y sylwadau fel pethau i’w hystyried mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Ychwanegodd y Cadeirydd, o ran casglu mwy o ystadegau ar grwpiau, fod angen i ni weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod pobl yn teimlo'n gyfforddus wrth siarad am eu rhywioldeb, ac y byddent yn gwerthfawrogi sylwadau a phrofiadau’r Aelod Cabinet - Cymunedau a staff eraill a oedd am rannu eu profiad. Cytunodd Yr Aelod Cabinet, Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar â'r sylwadau a wnaed, ond roedd am sicrhau eraill nad oeddent dan bwysau i siarad am bethau os nad oeddent yn fodlon gwneud.

PENDERFYNIAD: bod y Pwyllgor wedi nodi'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad hwn ac yn Atodiad Un.

107. <u>ADRODDIAD CYNLLUN GWEITHREDU'R CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL (DIWEDDARIAD AR WAITH A WNAED GAN GYFARWYDDIAETHAU YN YSTOD Y 12 MIS DIWETHAF)</u>

Cyflwynodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb adroddiad a oedd yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r pwyllgor ar y cynnydd a wnaed o ran cyflawni Cynllun Cydraddoldeb Strategol (SEP) 2020 - 2024 yn ystod 2020 i 2021. Dywedodd mai hwn oedd yr adolygiad cyntaf ar gyfer y cynllun hwn.

Eglurodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb fod SEP 2020-2024 yn gynllun statudol sy’n effeithio ar y cyngor cyfan. Mae’n amlinellu'r chwe amcan cydraddoldeb cyffredinol fel y rhestrir isod:

- Addysg
- Gwaith

• Safonau byw
• Iechyd a lles
• Diogelwch a pharch
• Cyfranogiad

Tynnodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb sylw at y cefndir a roddwyd yn adran 3 o'r adroddiad a chyfeiriodd yr aelodau at y cynnydd a wnaed yn 2020-2021, sydd ynghlwm yn atodiad 1. Tynnodd sylw at y pwyntiau allweddol i'w nodi o'r atodiad, a restrwyd yn adran 4.1 o'r adroddiad ac mewn manylder yn atodiad 1.

Croesawodd yr Aelod Cabinet Cymunedau yr adroddiad a dywedodd fod hyn yn dystiolaeth o ymroddiad CBSP a'i staff a'i Aelodau Etholedig, a diolchodd i bawb a oedd yn gysylltiedig, ac am y gwaith caled parhaus o wneud cynnydd.

Ategodd y Cadeirydd y sylwadau hyn gan ddweud ei bod yn credu fod yr adroddiad yn dangos y gwaith caled a wnaed yn ogystal â helpu i wella ymwybyddiaeth o faterion. Ychwanegodd fod yr adroddiad yn dangos lefel yr ymgysylltiad o fewn y Cyngor yn ogystal â sefydliadau allanol.

PENDERFYNIAD: Bod Pwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet wedi derbyn ac ystyried yr adroddiad a'r atodiad

108. ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG 2020/2021

Cyflwynodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb adroddiad a oedd yn hysbysu Pwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet o gynnwys chweched Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg y cyngor ar gyfer 2020/2021 a'r dull a ddefnyddiwyd.

Dywedodd fod Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg y cyngor 2020/2021 yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021 ac fe'i cyhoeddwyd, yn ôl y gofyn, erbyn 30 Mehefin 2021, ac roedd hefyd ar gael ar wefan CBSP o’r dyddiad hwnnw. Roedd yr adroddiad i’w gael yn Atodiad un (Cymraeg) ac Atodiad dau (Saesneg)

Dywedodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb ei bod yn ofynnol i ni, fel rhan o'r adroddiad, adrodd yn benodol ar y wybodaeth ganlynol:

• nifer y cwynion a dderbyniwyd gan y cyngor yn ystod y cyfnod;
• nifer y cyflogeion a ddatgelodd fod ganddynt sgiliau Cymraeg ar 31 Mawrth 2021;
• nifer y cyflogeion a fynychodd gyrsiau hyfforddi yn y Gymraeg yn ystod y cyfnod;
• nifer y swyddi newydd a swyddi gwag a hysbysebwyd yn ystod y cyfnod a oedd yn cael eu categoreiddio fel swyddi ble mae:
o Sgiliau Cymraeg yn hanfodol;
o Sgiliau Cymraeg yn ddymunol;
o Angen dysgu sgiliau Cymraeg;
o Dim angen sgiliau Cymraeg.

• Yn ogystal â'r wybodaeth a bennir yn adran 4.2, mae'r wybodaeth ddiweddaraf am Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, am gyswllt â chwsmeriaid, ac am weithgareddau hyrwyddo wedi'u cynnwys hefyd.

Roedd un Aelod yn falch o'r adroddiad a'r cynnydd a wnaed gan CBSP. Cytunodd â'r comisiynydd mewn perthynas â'r iaith a ddefnyddiwyd, ond nid oedd yn credu bod hyn yn fater o bwys.

Roedd yr Aelod Cabinet, Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar yn falch o weld bod yr adnoddau yno i gefnogi galwadau Cymraeg i'r Cyngor ond nododd fod y galw wedi gostwng. Credai fod angen hyrwyddo'r gwasanaeth i'r gymuned Gymraeg i'w sicrhau bod CBSP â'r gallu i ymdrin â galwadau yn y Gymraeg ac i sicrhau bod pobl yn defnyddio'r iaith o ddydd i ddydd.

Gofynnodd yr Arweinydd a oedd y gostyngiad yn nifer y galwadau cyfrwng Cymraeg wedi'i adlewyrchu mewn ffigurau eraill, a oedd mwy o bobl wedi defnyddio'r chatbot neu e-bost er enghraifft? Nid oedd gan y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb y ffigurau dadansoddi ar gyfer e-bost na'r chatbot, ond gallent ddarparu'r rheini i'r pwyllgor mewn cyfarfod diweddarach.

PENDERFYNIAD: Bod Pwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet wedi derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad hwn yn ogystal ag Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2020/2021.

109. ADRODDIAD ADOLYGIAD BLYNYDDOL ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Cyflwynodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor o ran y gofyniad ar y cyngor i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA), trosolwg o ymagwedd y cyngor at EIA'au, ac amlinelliad o EIA'au a gynhaliwyd yn ardaloedd gwasanaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn 2020/2021.

Rhoddodd drosolwg ar EIA'au y Cynghorau a'r hyfforddiant a ddarparwyd i Swyddogion i'w galluogi i'w cwblhau. Roedd rhagor o wybodaeth yn adran 4 o'r adroddiad.

Rhoddodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb ffigurau ar yr EIA a gynhaliwyd yn 2019/2020. Dywedodd fod pedwar EIA llawn wedi'u cynnal rhwng mis Chwefror 2020 a mis Mawrth 2021, a'u bod wedi'u rhestru yn Atodiad un ynghyd ag adroddiadau gan y Cabinet i gyd-fynd â hwy. Cynhaliwyd 26 o sgriniadau AEA yn ystod y cyfnod hwn ac mae'r rhain wedi'u rhestru yn atodiad 2. Cyfeiriwyd at y sgriniadau hyn yn adroddiad/au perthnasol y Cabinet a nododd y gallai'r polisi/au a asesir naill ai gael eu "sgrinio allan" neu fod angen cynnal AEA llawn.

PENDERFYNIAD: Bod Pwyllgor y Cabinet yn nodi'r cynnydd a wnaed yn y cyngor yn ystod 2020/2021 o ran cwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, y cynnydd a wnaed gyda hyfforddiant - e-ddysgu a datblygu hyfforddiant wyneb yn wyneb a gweithdai i baratoi ar gyfer gweithredu'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

110. ADRODDIAD DIWEDDARU AR WEITHREDU SAFONAU'R GYMRAEG

Cyflwynodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb adroddiad a oedd yn diweddaru Pwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet (CCE) ar weithredu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg.

Dywedodd fod rhagor o gynnydd wedi'u wneud ers i'r cyngor dderbyn ei hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg yn 2015. Darparwyd diweddariadau ar gydymffurfiaeth ym mhob CCE ers 28 Ebrill 2016.

Rhoddodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb wybodaeth am gynnydd/diweddariadau allweddol o ran cydymffurfiaeth ers yr adroddiad diweddaru diwethaf, ac roeddent wedi'u nodi yn adran 4 yr adroddiad. Ychwanegodd nad oedd unrhyw gwynion newydd wedi dod i law ers yr adroddiad diweddaru diwethaf.

Roedd y Cadeirydd yn falch o weld nad oedd unrhyw gwynion newydd ers y cyfarfod diwethaf nac ychwaith unrhyw gwynion heb eu bodloni.

Ategodd Aelod arall y sylw hwn a dywedodd ei fod yn brofiad dysgu i bawb dan sylw a bod llawer iawn o gynnydd wedi'i wneud.

Mynegodd yr Arweinydd ei werthfawrogiad o'r tîm dros y blynyddoedd a'u gwaith caled parhaus ers ymadawiad cyn-swyddog. Cytunodd y Cadeirydd a dywedodd fod CBSP mewn sefyllfa gadarnhaol a’i fod yn falch o'r cynnydd a wnaed.

PENDERFYNIAD: Bod Pwyllgor y Cabinet wedi derbyn ac wedi ystyried yr adroddiad

111. MATERION BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am Time Not Specified